# Polisi Diogelu'r Cyhoedd a Gorfodaeth a Chydymffurfiaeth Amgylcheddol

*Chwefror 2025*

**CBS BLAENAU GWENT**

**Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd**
**Gwasanaeth Gorfodi Rheng Flaen**
**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol**

## RHAGAIR

Fel rhan o'i swyddogaethau statudol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn darparu gwasanaethau rheoleiddio Diogelu'r Cyhoedd (Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu) ynghyd â Gwasanaethau Gorfodi Rheng Flaen (Tipio Anghyfreithlon, Cydymffurfiaeth Casglu Gwastraff, Rheolaethau Sbwriel a Chŵn) gyda'r bwriad o ddiogelu iechyd, diogelwch, yr amgylchedd ac amwynderau trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr y sir.

Rydym yn cydnabod bod atal yn well nag unioni, ond lle mae'n angenrheidiol cymryd camau gorfodi yn erbyn busnes neu aelod o'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny, tra'n sicrhau bod y gorfodi a wnawn yn deg, atebol, cyson, cymesur a thryloyw.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r hyn y gall busnesau ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.

Mae hwn yn wasanaeth yr ydym yn falch o fod yn gyfrifol amdano.



**Y Cynghorydd Helen Cunningham**
**Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet – Lle a'r Amgylchedd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

# CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 2 |
| | Cynnwys | 3 |
| | | |
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| 2 | Statws Cyfreithiol y Polisi Gorfodi hwn | 5 |
| 3 | Cwmpas ac Ystyr "Gorfodi" | 5 |
| 4 | Egwyddorion Cyffredinol | 6 |
| 5 | Camau Gorfodi | 9 |
| | 5.1 Ystyriaethau Gorfodi Cyffredinol | 9 |
| | 5.2 Ystod o Ddulliau Gorfodi | 11 |
| | 5.3 Dim gweithredu | 11 |
| | 5.4 Cyngor, Canllawiau a Chymorth Cydymffurfio | 12 |
| | 5.5 Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPNs), Cosbau Ariannol Penodedig (FMPs), Cosbau Ariannol Amrywiol (VMPs), Hysbysiadau Tâl Cosb (PCNs) a Hysbysiadau Cosb am Anhrefn (PNDs) ac ati | 12 |
| | 5.6 Ymgymeriadau Gwirfoddol | 12 |
| | 5.7 Hysbysiadau Statudol, Gorchmynion a Gwaith mewn diffyg | 13 |
| | 5.8 Gweithdrefnau Cadw, Atafaelu a Fforffedu | 13 |
| | 5.9 Camau Gwaharddol a Sancsiynau Sifil eraill | 13 |
| | 5.10 Addasu, Atal neu Ddirymu Trwydded | 14 |
| | 5.11 Rhybudd Syml | 14 |
| | 5.12 Erlyn | 14 |
| | 5.13 Ceisiadau Enillion Troseddau | 15 |
| | 5.14 Cyfrifoldebau Gorfodi fel Awdurdod Tai Lleol | 15 |
| | 5.15 Cyfrifoldebau Gorfodi fel Awdurdod Bwyd | 15 |
| | | |
| 6 | Cyswllt ag Asiantaethau eraill | 16 |
| 7 | Hysbysu Pobl a Busnesau | 16 |
| 8 | Adolygu a Chyhoeddi'r Polisi Gorfodi | 16 |
| | | |
| | Atodiad 1 – Meini Prawf Gorfodi Diogelwch Bwyd | 17 |
| | | |
| | Diwedd | |

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn darparu gwasanaethau rheoleiddio Diogelu'r Cyhoedd (Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu) ynghyd â Gwasanaethau Gorfodi Rheng Flaen (Tipio Anghyfreithlon, Cydymffurfiaeth Casglu Gwastraff, Rheolaethau Sbwriel a Chŵn) gyda'r bwriad o ddiogelu iechyd, diogelwch, yr amgylchedd ac amwynderau trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr y sir.

1.2 Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu i sicrhau bod Gwasanaethau Rheoleiddio Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cydymffurfio â'r fframwaith deddfwriaethol yr ydym yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae hefyd yn esbonio ein harferion gorfodi fel y gall preswylwyr a busnesau ddeall pa gamau gorfodi rydyn ni'n eu cymryd a sut rydym yn penderfynu pa gamau gorfodi sy'n briodol ym mhob achos.

1.3 Mae'r polisi hwn wedi'i baratoi mewn perthynas ag ystod o brif ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol, gan gynnwys:

- Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (Deddf RES).
- Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (LRRA).
- Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013
- Canllaw i'r Ddeddf RES
- Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (a gyhoeddwyd o dan Adran 40(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Phennod 6 o Ganllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)

Gellir dod o hyd i restr lawn o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau o dan y Ddeddf RES yma.

1.4 Yn ogystal â'r uchod, mae ein gweithgareddau gorfodi yn cael eu cynnal yn unol â deddfwriaeth sy'n ymwneud â throseddau penodol ynghyd â:

- Deddf Hawliau Dynol 1988;
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 a'r Cod Ymarfer ar Bwerau Mynediad
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Chanllaw Cod B PACE
- Deddf Pwerau Ymchwilio 2000
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001
- Gorchymyn Cydlynu Gorfodi Rheoleiddiol (Camau Gorfodi) 2009 (CRE)

- [Cod Erlynwyr y Goron]
- [Cod y Rheoleiddwyr]
- [Deddf Diogelu Data 1998]

1.5 Nid yw pob un o'r darpariaethau a gwmpesir yn y polisi hwn yn gyfreithiol rwymol ar bob agwedd ar ein gorfodi. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i arferion gorfodi da yn llywio pob un o'r penderfyniadau gorfodi a wneir gan ein swyddogion gorfodi.

## 2 STATWS CYFREITHIOL Y POLISI GORFODI HWN

2.1 Mae'r Polisi Gorfodi a Chydymffurfiaeth hwn wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Aelodau fel y bo'n briodol ac mae manylion y broses cymeradwyaeth Aelodau ar gael ar gais.

2.2 Nid yw'r ddogfen hon yn disodli nac yn drech na deddfwriaeth neu ganllawiau statudol.

2.3 Bydd pob Swyddog Gorfodi, wrth wneud penderfyniadau gorfodi, yn cydymffurfio â'r Polisi hwn. Bydd ymadawiadau o'r Polisi hwn yn eithriadol, yn gallu cael eu cyfiawnhau ac wedi eu cymeradwyo gan Reolwr Tîm, Pennaeth Gwasanaeth, Cyfarwyddwr neu Bwyllgor Aelodau priodol (yn ôl yr angen), cyn eu gweithredu.

2.4 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998. Byddwn, felly, yn cymhwyso egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar gyfer Diogelu Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol. Yn benodol, rhoddir sylw dyledus i'r hawl i dreial teg a'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.

2.5 Mewn achosion eithriadol, gallwn ddod i'r casgliad nad yw'r darpariaethau yn y Polisi hwn, a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau y mae'n seiliedig arnynt, yn berthnasol neu wedi’u gorbwyso gan ddarpariaeth arall. Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw benderfyniad i wyro o'r Polisi hwn yn cael ei resymu'n briodol, yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol wedi’i dogfennu.

## 3 CWMPAS AC YSTYR 'GORFODI'

3.1 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddeddfwriaeth a orfodir gan wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, Trwyddedu a Gorfodi Rheng Flaen yn ogystal ag i unrhyw staff dros dro a/neu staff asiantaeth ac i unrhyw berson a/neu sefydliad sy'n cyflawni gorfodi ar ran y gwasanaethau y mae'r Polisi hwn yn berthnasol iddynt.

3.2 Bydd y gwasanaeth yn ystyried y diffiniad o 'weithredu gorfodi' fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008.

3.3 Mae rhestr lawn o'r camau gweithredu a gwmpesir gan y Ddeddf RES wedi'i rhestru yng Ngorchymyn CRE 2009. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn berthnasol i unrhyw gamau gorfodi eraill a gymerir, fel llythyr anffurfiol, lle nodir y gellid cymryd y camau a restrir.

## 4. EGWYDDORION CYFFREDINOL

4.1 Bydd ein nodau gorfodi fel y nodir yng Nghod y Rheoleiddwyr, a byddant yn canolbwyntio ar newid ymddygiad y troseddwr, newid agweddau mewn cymdeithas i ddod yn llai derbyniol o droseddau, dileu unrhyw elw ariannol neu fudd o beidio â chydymffurfio, ac atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol.

4.2 Bydd ein camau gorfodi'n anelu at fod yn ymatebol ac ystyried beth sy'n briodol ar gyfer y troseddwr a'r mater rheoleiddio penodol, ac i fod yn gymesur â natur y drosedd a'r niwed a achosir.

4.3 Efallai na fyddwn yn gallu delio â cheisiadau gwasanaeth/cwynion/honiadau dienw ond mae hyn yn dibynnu ar natur y pryder a ffynhonnell y broblem. Ym mhob achos, gall cleientiaid sy'n rhoi eu henw, cyfeiriad, neu unrhyw fanylion eraill, fod yn sicr y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw gyda chyfrinachedd llym i'r graddau y mae deddfwriaeth yn caniatáu. Lle bo hynny'n briodol, bydd angen trin gwybodaeth a dderbynnir fel "cudd-wybodaeth" a fydd yn cael ei phrosesu yn unol â'r Model Gweithredu Cudd-wybodaeth a'i graddio yn unol â hynny. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol a'i rhannu ag asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.

4.4 Pan ystyriwn fod camau gorfodi yn briodol, bydd pob achos yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun. Fodd bynnag, mae yna egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i'r ffordd y mae'n rhaid mynd i'r afael â phob achos. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y Polisi hwn ac yng Nghod y Rheoleiddwyr.

4.5 Bydd pob penderfyniad gorfodi yn deg, annibynnol a gwrthrychol. Ni fyddant yn cael eu dylanwadu gan faterion fel ethnigrwydd neu darddiad cenedlaethol, rhyw, credoau crefyddol, safbwyntiau gwleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol y person dan amheuaeth, y dioddefwr, y tyst neu'r troseddwr. Ni fydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu heffeithio gan bwysau amhriodol neu ormodol o unrhyw ffynhonnell.

4.6 Ein prif swyddogaeth yw diogelu'r cyhoedd, busnesau cyfreithlon, yr amgylchedd a grwpiau fel defnyddwyr a gweithwyr. Rydym yn gwneud hyn trwy sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gorfodi. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i gymryd camau gorfodi ar ôl i gydymffurfiaeth gael ei chyflawni os yw hynny er

budd y cyhoedd, ac yn enwedig lle mae cydymffurfiaeth ond wedi'i chyflawni o ganlyniad i'n hymyrraeth.

4.7 Wrth ystyried camau gorfodi, byddwn yn ystyried barn unrhyw ddioddefwyr, partïon wedi'u hanafu neu bersonau neu gymunedau perthnasol i bennu natur a graddfa unrhyw niwed neu golled, a'u harwyddocâd, wrth wneud y penderfyniad i gymryd camau ffurfiol.

4.8 Pan fo busnes mewn Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol gofrestredig o dan y Ddeddf RES, byddwn yn hysbysu'r Awdurdod Sylfaenol o unrhyw gamau gorfodi yr ydym yn bwriadu eu cymryd (oni bai bod camau yn cael eu cymryd mewn argyfwng ac yn yr achos hwn gwneir hysbysiad ar ôl yr achos). Efallai y byddwn hefyd, o dan y Ddeddf honno, yn cyfeirio'r mater at Gyflawni Rheoleiddio (RD), sy'n rhan o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, os yn briodol. Mae gan yr Awdurdod Sylfaenol yr hawl i wrthwynebu gweithredu arfaethedig, ac yn yr amgylchiadau hynny gallan nhw neu ni gyfeirio'r mater at RD.

4.9 Gwrthdaro Buddiannau. Gall gwrthdaro buddiannau posibl ddigwydd lle mai'r Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yw'r awdurdod gorfodi perthnasol mewn perthynas â safleoedd y mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent neu ei Swyddogion fuddiant perchnogaeth neu reoli ynddynt. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi'r Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd i ymgymryd â'i rôl heb ofn a heb unrhyw wrthdaro, boed yn wirioneddol neu'n ganfyddedig. Bydd unrhyw wrthdaro a nodir yn cael ei benderfynu fesul achos gan ystyried natur cyfranogiad yr awdurdod lleol yn y busnes, cyfrifoldeb y deiliaid dyletswydd am y busnes a'r person sydd fwyaf tebygol o fod yn torri amod pe bai trosedd yn digwydd.

4.10 Bydd toriadau deddfwriaeth a ganfyddir mewn perthynas â busnesau neu gontractwyr sy'n gweithredu ar safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw berchennog busnes arall, a bydd yr amserlenni ar gyfer cyflawni gwaith o'r fath yr un fath ag ar gyfer unrhyw berchennog busnes arall.

4.11 Bydd y cyngor a roddir i neu mewn perthynas â safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor yr un fath ag ar gyfer unrhyw berchennog busnes arall, ac ni chaniateir iddo wrthdaro â rôl orfodi'r awdurdod.

4.12 Lle mae gan y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd neu Reng Flaen rôl reoleiddiol ond na allant gymryd camau gorfodi ffurfiol mewn perthynas â safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor, bydd diffyg cydymffurfiaeth â'r gyfraith yn cael ei hadrodd i'r Cyfarwyddwr/Prif Swyddog priodol. Yn ogystal, bydd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro yn cael eu hysbysu am ddiffyg cydymffurfiaeth sy'n parhau heb ei ddatrys ar ôl amserlen briodol, ac am unrhyw faterion a fyddai wedi arwain at gamau gorfodi ffurfiol a/neu erlyn mewn safleoedd nad ydynt yn eiddo i awdurdod lleol.

4.13 Mewn rhai achosion, mae dyletswydd ofynnol ar awdurdod lleol i sefydlu trefniadau ffurfiol gydag awdurdod arall ar gyfer gorfodi deddfwriaeth yn eu safleoedd sy’n eiddo i neu’n cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol e.e. Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012. Lle bo angen, bydd trefniadau ffurfiol yn cael eu gweithredu gydag awdurdod penodol a bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth a nodir yn eu hardal/safleoedd yn cael eu trin yn unol ag egwyddorion y polisi gorfodi hwn.

4.14 Bydd gorfodi yn cael ei wneud gan swyddogion awdurdodedig priodol, a bydd awdurdodi yn seiliedig ar gymwysterau, gwybodaeth a phrofiad. Bydd yr awdurdodiad ar gyfer pob swyddog yn mynd trwy'r weithdrefn Awdurdodi berthnasol ac yn cael ei gofnodi.

4.15 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y penderfyniad i gymryd camau gorfodi yn nwylo’r swyddog awdurdodedig. Gall penderfyniadau heblaw cyngor anffurfiol a Hysbysiadau Cosb Benodedig fod yn destun craffu ychwanegol fel y bo'n briodol. Yn benodol, bydd unrhyw benderfyniad i erlyn yn cael ei wneud gan y Pennaeth Gwasanaeth neu eraill sydd â'r awdurdod i wneud hynny, yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Awdurdod Lleol, mewn trafodaeth â'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

4.16 Bydd hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn cyflawni ac yn cynnal y lefel briodol o gymhwysedd a phroffesiynoldeb, a bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gofnodi yn ôl yr angen.

4.17 Pan fyddwn yn defnyddio contractwyr neu asiantaethau allanol, bydd eu cymwysterau a'u profiad yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau cymhwysedd gofynnol ar gyfer unrhyw waith a wneir ar ran yr awdurdod.

4.18 Mae pob penderfyniad gorfodi gan swyddogion awdurdodedig yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan reolwyr llinell, fel y bo'n briodol, ac mae gweithdrefnau monitro ar waith lle mae hynny’n ofynnol yn ôl y gyfraith.

4.19 Bydd unrhyw weithdrefnau sydd ar waith i sicrhau cysondeb ac unffurfiaeth gorfodi gan swyddogion a gyflogir gan yr awdurdod hefyd yn cael eu cymhwyso i staff dros dro a staff contract. Bydd unrhyw staff o'r fath yn cael eu monitro i sicrhau bod eu gwaith yn cydymffurfio â gofynion y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau eraill sydd ar waith.

4.20 Byddwn yn ystyried cyfrinachedd unrhyw wybodaeth a geir fel rhan o gamau gorfodi, a’r angen am gyfrinachedd mewn perthynas ag unrhyw gamau a gymerir. Yn yr un modd, mae'r Gwasanaethau yn cydnabod darpariaethau ac egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â hawliau unigolion i gael mynediad at ddata penodol.

4.21 Rydym yn cydnabod bod rhoi cyngor yn rhan bwysig o'n gwaith, ond mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau nad yw rhoi cyngor i fusnesau a thrigolion lleol yn gwrthdaro ag unrhyw swyddogaeth gorfodi statudol.

4.22 Ni fyddwn yn cynnig gwasanaethau ymgynghori yn gyffredinol, ac eithrio trwy unrhyw berthynas Awdurdod Sylfaenol y gallem ymrwymo iddi. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod gwaith ymgynghori'n golygu rhoi cymorth a chyngor manwl neu weithredu ar ran cleient, p'un ai er budd ariannol ai peidio, ond ni fyddai'n cynnwys rhoi cyngor cyffredinol fel rhan o arolygiad, cais ac ati.

4.23 Os byddwn yn penderfynu cynnig gwasanaethau ymgynghori (yn amodol ar argaeledd cyllid), ni fydd y rhain yn cael eu marchnata na'u hysbysebu fel rhan o arolygiad neu gamau gorfodi eraill heb gyfeirio at y ffaith bod darparwyr gwasanaeth eraill yn bodoli.

4.24 Lle caniateir hynny o fewn y gyfraith, efallai y byddwn yn dewis codi tâl am gamau gorfodi. Yn achos erlyniadau, byddwn yn cyflwyno cais am gostau ar sail adennill llawn oni bai bod amgylchiadau lliniarol sy'n gwneud hyn yn amhriodol.

4.25 Pan fydd gan berson neu fusnes broblem gyda neu lle maent yn dymuno cwyno am gamau gorfodi a gymerwyd yn eu herbyn o dan y Polisi hwn, dylent ystyried unrhyw apêl neu broses farnwrol arall sydd ar waith a dilyn hyn lle bo hynny'n briodol. Os nad oes apêl neu broses farnwrol arall ar waith, gall y person y cymerwyd y camau yn ei erbyn;

a) Siarad â'r Swyddog Gorfodi sy'n delio â'u hachos, lle y bo'n briodol, fel y gellir trafod y camau gorfodi sy'n cael eu cymryd a datrys unrhyw faterion trwy gytundeb lle bynnag y bo modd.

b) Siarad â rheolwr llinell y swyddog dan sylw lle na ellir dod i gytundeb, neu

c) Gwneud cwyn i'r Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
- Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol y Gwaith Dur, Glynebwy, Gwent, NP23 6DN

d) Defnyddio'r weithdrefn gwyno ffurfiol, y gellir cael mynediad iddi trwy

- www.blaenau-gwent.gov.uk

Delir â phob ymholiad a chwyn yn unol â Chanllawiau Corfforaethol yr Awdurdod.

# 5. CAMAU GORFODI

## 5.1 Ystyriaethau gorfodi cyffredinol

5.1.1 Y rhagdybiaeth gyffredinol fydd ein bod yn cymryd dull graddol o orfodi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal camau fel erlyn neu wasanaethu hysbysiad cosb benodedig/hysbysiad tâl cosb fel cam gorfodi cyntaf lle mae hynny er budd y cyhoedd.

5.1.2 Wrth asesu pa gamau gorfodi sy'n angenrheidiol ac yn gymesur, rhoddir ystyriaeth i, ymhlith pethau eraill:

a) Difrifoldeb y methiant cydymffurfio.

b) Perfformiad unrhyw fusnes a/neu unigolyn dan sylw yn y gorffennol a'r presennol.

c) Unrhyw rwystr ar ran y troseddwr.

d) Y risgiau sy'n cael eu rheoli.

e) Canllawiau statudol.

f) Codau Ymarfer.

g) Unrhyw gyngor cyfreithiol.

h) Unrhyw flaenoriaethau a osodwyd gan y Llywodraeth neu a fabwysiadwyd gan bob awdurdod lleol

i) P'un a yw'r diffynnydd o dan 18 oed ('ieuenctid' neu ‘bobl ifanc’). Ni fyddwn yn gorfodi yn erbyn pobl ifanc oni bai bod pwerau penodol o fewn y ddeddfwriaeth briodol a/neu ein bod wedi mabwysiadu pwerau o'r fath.

j) Bodolaeth unrhyw gytundeb Awdurdod Sylfaenol y gellir cyflawni cydymffurfiaeth drwyddo.

5.1.3 Bydd swyddogion hefyd yn sicrhau bod unrhyw gamau gorfodi arfaethedig yn rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn gyson ag arfer da a chanllawiau. Wrth ddewis y camau mwyaf priodol, bydd y swyddog arweiniol yn defnyddio dull gweithredu penderfyniad gorfodi priodol sy'n ymwneud â'r gweithgaredd rheoleiddio (e.e. Model Rheoli Gorfodi Iechyd a Diogelwch neu atgyfeiriadau at Bwyllgorau Trwyddedu). Lle nad yw modelau penodol o'r fath yn bodoli, yna, cyn cymryd unrhyw gamau, byddwn yn ystyried y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a gweithdrefnau mewnol a ystyrir yn briodol ym mhob achos.

5.1.4 Lle mae’n ofynnol i'r derbynnydd gymryd camau i unioni neu atal trosedd, byddwn yn

a) Gwahaniaethu'n glir rhwng troseddau ac unrhyw argymhellion a chyngor sy'n cael eu rhoi

b) Esbonio sut y dylid unioni unrhyw drosedd, lle y bo'n briodol (gall hyn fod mor syml â rhoi’r gorau i weithgaredd)

c) Rhoi amserlenni rhesymol ar gyfer unioni unrhyw drosedd (gall hyn fod ar unwaith mewn rhai amgylchiadau)

d) Rhoi manylion cyswllt rhag ofn bod angen gwybodaeth neu gyngor ar y camau gorfodi.

e) Darparu gwybodaeth ysgrifenedig am unrhyw brosesau apelio lle bo hynny'n berthnasol.

5.1.5 Bydd unrhyw gamau a gymerwn mewn perthynas ag unrhyw drosedd yn cael eu cofnodi, a gellir eu defnyddio i lywio penderfyniadau gorfodi diweddarach.

**5.2 Ystod o Ddulliau Gorfodi**

Wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu, bydd swyddogion yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau gorfodi sydd ar gael iddynt. Gall hyn gynnwys, er enghraifft:

i. Dim Gweithred
ii. Cyngor, Canllawiau a Chymorth Cydymffurfio
iii. Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPNs), Cosbau Ariannol Penodedig (FMPs), Cosbau Ariannol Amrywiol (VMPs), Hysbysiadau Tâl Cosb (PCNs) a Hysbysiadau Cosb am Anhrefn (PNDs) ac ati
iv. Ymgymeriadau Gwirfoddol
v. Hysbysiadau Statudol, Gorchmynion, Gweithdrefnau Gwahardd Eraill a Gwaith mewn diffyg
vi. Gweithdrefnau Cadw, Atafaelu a Fforffedu
vii. Camau Gwaharddol a Sancsiynau Sifil eraill
viii. Addasu, Atal neu Ddirymu Trwydded, system Pwyntiau Cosb a rhybuddion eraill
ix. Rhybudd Syml
x. Erlyn
xi. Ceisiadau Enillion Troseddau

**5.3 Dim Gweithredu.**

5.3.1 Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd torri'r gyfraith yn cyfiawnhau unrhyw weithredu, er enghraifft pan fo:

- Camau gorfodi’n amhriodol yn yr amgylchiadau, er enghraifft lle na fyddai'r diffynnydd yn gallu deall a/neu byddai'n effeithio'n ddifrifol ar ei iechyd neu les.

- Y drosedd yn fach iawn, ac mae’r gost o gydymffurfio neu orfodi yn sylweddol fwy nag effaith niweidiol y tramgwydd.

Byddai amgylchiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn anarferol iawn ac, yn y rhan fwyaf o achosion lle torrir y gyfraith, ystyrir bod rhyw fath o gamau gorfodi yn briodol.

## 5.4 Cyngor, Canllawiau a Chymorth Cydymffurfio

5.4.1 Cyngor a chymorth anffurfiol fydd ymateb cyntaf y Gwasanaeth yn achos llawer o doriadau deddfwriaeth a nodir. Gellir darparu cyngor ar lafar neu ar ffurf llythyr rhybudd i gynorthwyo unigolion a busnesau i unioni toriadau mor gyflym ac effeithlon â phosibl ac osgoi'r angen am gamau gorfodi pellach. Bydd llythyr rhybudd yn nodi beth y dylid ei wneud i unioni'r toriad ac atal ailadrodd. Os nodir toriad tebyg yn y dyfodol, bydd y llythyr hwn yn argyhoeddiadol wrth ystyried y camau gorfodi mwyaf priodol i'w cymryd ar yr achlysur hwnnw. Ni ellir dyfynnu llythyr o'r fath yn y llys fel euogfarn flaenorol ond gellir ei gyflwyno mewn tystiolaeth. Pan roddir cyngor, byddwn yn nodi'n glir unrhyw doriadau o’r gyfraith ac yn rhoi cyngor ar sut i'w cywiro.

5.4.2 Lle mae perthynas awdurdod sylfaenol, byddwn yn ystyried gofynion yr Awdurdod Sylfaenol ynglŷn â'n rôl ymgynghorol, ac yn cynghori'r awdurdod arweiniol lle mae unrhyw gyngor yn berthnasol y tu hwnt i lefel leol.

## 5.5 Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPNs), Cosbau Ariannol Penodedig (FMPs), Cosbau Ariannol Amrywiol (VMPs), Hysbysiadau Tâl Cosb (PCNs), Hysbysiadau Cosb am Anhrefn (PNDs) ac ati

5.5.1 Lle mae deddfwriaeth yn caniatáu i drosedd gael ei thrin drwy Hysbysiad Cosb Benodedig, Hysbysiad Tâl Cosb neu Hysbysiad Cosb am Anrhefn, efallai y byddwn yn dewis cyhoeddi FPN/PCN/PND ar gyfer trosedd gyntaf a/neu fân. Nid oes gofyniad i gyhoeddi rhybudd cyn cymryd y camau hyn, gan fod y rhwymedïau hyn wedi'u cyflwyno gan y Llywodraeth fel mecanwaith rhybuddio sy'n caniatáu i erlyniad gael ei osgoi.

5.5.2 Mae FPNs a PNDs yn gynnig i ryddhau atebolrwydd am drosedd yn hytrach na wynebu erlyniad, ac felly bydd peidio â thalu yn gyffredinol yn arwain at erlyniad oni bai bod tystiolaeth i ddangos amgylchiadau lliniarol. Mae PCNs yn cael eu cyflwyno ar gyfer troseddau sifil nas talwyd, trwy adennill dyledion.

5.5.3 Mae Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 yn rhoi pwerau i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol orfodi'r gwaharddiad ar waredu bwyd gwastraff i garthffos o safle annomestig. Bydd unrhyw gamau gorfodi o dan y ddeddfwriaeth hon yn rhoi sylw i egwyddorion y polisi gorfodi hwn a Chanllaw CLlLC ar y Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023.

## 5.6 Ymgymeriadau Gwirfoddol

5.6.1 Caiff yr Awdurdod dderbyn ymgymeriadau gwirfoddol y bydd toriadau'n cael eu cywiro a/neu ailadroddiadau'n cael eu hatal. Mae unrhyw fethiant i anrhydeddu ymgymeriadau gwirfoddol yn cael ei gymryd o ddifrif a bydd yn arwain at gamau gorfodi priodol.

## 5.7 Hysbysiadau Statudol, Gorchmynion, Gweithdrefnau Gwahardd Eraill a Gwaith mewn diffyg

5.7.1 Mae deddfwriaeth benodol yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau statudol gael eu cyflwyno neu Orchmynion gael eu gwneud yn y llys gan ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr gymryd camau penodol neu roi'r gorau i weithgareddau penodol. Gall y math hwn o gam gorfodi ei gwneud yn ofynnol i weithgareddau ddod i ben ar unwaith lle mae'r amgylchiadau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch, difrod amgylcheddol neu niwsans yn mynnu hynny. Mewn amgylchiadau eraill, bydd yr amser a ganiateir yn rhesymol, gan ystyried difrifoldeb y tramgwydd, goblygiadau'r diffyg cydymffurfio a'r cyfnod apelio ar gyfer yr hysbysiad hwnnw. O dan ddeddfwriaeth benodol, gallem godi tâl am gyflwyno hysbysiad statudol.

5.7.2 Mae rhai mathau o hysbysiad yn caniatáu i waith gael ei wneud mewn diffyg, ac oni chydymffurfir â hysbysiad [torri'r hysbysiad] gallwn wneud unrhyw waith angenrheidiol i fodloni gofynion yr hysbysiad ein hunain. Lle mae'r gyfraith yn caniatáu, gallwn wedyn godi tâl ar y person/busnes y cyflwynwyd yr hysbysiad iddynt am unrhyw gost yr awn iddi wrth gyflawni'r gwaith. Lle bo hynny'n bosibl, gellir gosod costau hefyd fel pridiannau tir lleol.

## 5.8 Gweithdrefnau Cadw, Atafaelu a Fforffedu

5.8.1 Mae deddfwriaeth benodol yn galluogi Swyddogion Gorfodi awdurdodedig i gadw nwyddau yn amodol ar ymchwiliadau pellach a/neu atafaelu nwyddau, offer neu ddogfennau - er enghraifft lle mae nwyddau'n anniogel neu lle gallai fod eu hangen fel tystiolaeth ar gyfer achos llys posibl yn y dyfodol. Pan fyddwn yn atafaelu nwyddau, byddwn yn rhoi derbynneb briodol i'r person y cymerir y nwyddau oddi wrtho.

5.8.2 Gellir defnyddio fforffedu ar y cyd ag atafaelu a/neu erlyn lle mae angen gwaredu nwyddau i'w hatal rhag ailymuno â'r farchnad neu gael eu defnyddio i achosi problem bellach.

5.8.3 Anifeiliaid. O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, os yw milfeddyg yn ardystio bod 'anifeiliaid gwarchodedig' yn dioddef neu'n debygol o ddioddef os nad yw eu hamgylchiadau'n newid, gallem ystyried eu cymryd i'n meddiant a gwneud cais am Orchmynion ar gyfer ad-dalu treuliau yr eir iddynt a'r gwaredu dilynol. Yn ogystal, gall Ceffylau a Merlod a ddarganfyddir yn pori'n anghyfreithlon, yn crwydro neu wedi'u gadael gael eu hatafaelu a'u cadw, gan erlid y perchnogion am y costau cysylltiedig. Lle na thelir y costau hyn, gall yr awdurdod gadw'r anifeiliaid a'u gwaredu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

## 5.9 Camau Gwaharddol a Sancsiynau Sifil eraill

5.9.1 Mewn rhai amgylchiadau gellir defnyddio gweithredoedd gwaharddol i ddelio â throseddwyr ailadroddus; amgylchiadau peryglus; neu niwed i ddefnyddwyr / yr amgylchedd / iechyd y cyhoedd, er enghraifft. Hefyd, gall y Tîm Diogelwch Cymunedol ddewis y llwybr hwn i ddelio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

5.9.2 O dan Ddeddf Menter 2002, bydd camau'n cael eu hystyried lle mae toriadau parhaus wedi digwydd neu lle ceir niwed sylweddol i ddefnyddwyr yn gyffredinol, a gall y rhain gynnwys ymgymeriadau anffurfiol hyd at Orchmynion Llys ac Achosion Dirmyg.

## 5.10 Addasu, Atal neu Ddirymu Trwydded

5.10.1 Mae amrywiaeth o gamau gweithredu ar gael mewn perthynas â thrwyddedau, yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth y cyhoeddwyd y drwydded oddi tani ac unrhyw bolisïau penodol sy'n darparu dulliau gwahanol ac yn gosod amodau trwyddedu y mae'n ofynnol i ddeiliad y drwydded roi sylw iddynt. Er enghraifft, mae'r "Polisi yn Ymwneud â Thrwyddedau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat" yn darparu ar gyfer system pwyntiau cosb mewn perthynas â throseddau penodol.

5.10.2 Mae'r camau y gellir eu cymryd yn cynnwys atal neu ddirymu trwydded, addasu amodau'r Drwydded, gwahardd gweithgaredd trwyddedadwy o gwmpas y drwydded, gwaredu Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu gyhoeddi hysbysiad statudol lle caniateir hyn o dan y ddeddfwriaeth drwyddedu benodol.

5.10.3 Lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu o dan Bolisi Trwyddedu'r awdurdod, mae'r camau uchod yn mynd trwy'r Pwyllgor Trwyddedu priodol neu'r Llysoedd.

## 5.11 Rhybudd Syml

5.11.1 Lle bo hynny'n briodol, a lle byddai modd cyfiawnhau erlyniad fel arall, gellir gweinyddu Rhybudd Syml gyda chaniatâd y troseddwr.

5.11.2 Wrth benderfynu a yw Rhybudd Syml yn briodol, byddwn yn ystyried Canllaw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder 2013. Nodir canllaw ar gymhwyso'r prawf budd cyhoeddus wrth benderfynu a yw rhybudd syml yn briodol yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, sydd i'w weld ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron.

5.11.3 Os bydd troseddwr yn gwrthod cael ei rybuddio, bydd hynny'n ystyriaeth sylweddol wrth benderfynu a ddylid erlyn y troseddwr am y drosedd honno wedyn.

**5.12 Erlyn**

5.12.1 Wrth benderfynu a yw erlyniad yn briodol, byddwn yn ystyried y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, ac yn benodol

(i) Wrth benderfynu a yw'r achos yn bodloni'r prawf tystiolaethol, a

(ii) Wrth benderfynu a yw erlyniad er budd y cyhoedd

5.12.2 Lle bo hynny'n briodol, ac yn enwedig yn achos erlyniadau ar ôl methu â thalu Hysbysiad Cosb Benodedig, byddwn yn ystyried defnyddio Hysbysiad Gweithdrefn Cyfiawnder Sengl lle mae'r opsiwn hwn ar gael.

5.12.3 Efallai y dewiswn godi ymwybyddiaeth trwy roi cyhoeddusrwydd i unrhyw erlyniad yr ydym wedi'i ddilyn, oni bai bod rheswm pwysicach a fyddai'n gwneud hyn yn amhriodol. Mae hyn oherwydd bod erlyniad yn cael ei ystyried yn ffactor atal pwysig i fusnesau eraill nad ydynt yn cydymffurfio.

**5.13 Ceisiadau Enillion Troseddau**

5.13.1 Gallwn, naill ai trwy ein Swyddogion ein hunain neu mewn cydweithrediad ag ymchwilwyr annibynnol, timau rhanbarthol neu genedlaethol eraill fel y Tîm Ymchwiliadau Rhanbarthol neu dimau Twyll Bwyd, neu'r Heddlu, wneud cais o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 i atal a/neu atafaelu asedau troseddwr.

5.13.2 Pwrpas unrhyw achos o'r fath yw adennill y budd ariannol y mae'r troseddwr wedi'i gael o'i ymddygiad troseddol. Cynhelir achosion yn ôl y safon profi sifil.

**5.14 Cyfrifoldebau Gorfodi fel Awdurdod Tai Lleol**

5.14.1 Bydd CBS Blaenau Gwent, fel Awdurdod Tai Lleol, yn sicrhau y bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan ei Swyddogion Awdurdodedig yn rhoi sylw i egwyddorion y polisi gorfodi hwn a'r *Polisi Gorfodi Tai* ar wahân.

**5.15 Cyfrifoldebau Gorfodi fel Awdurdod Bwyd**

5.15.1 Bydd CBS Blaenau Gwent fel Awdurdod Bwyd yn sicrhau y bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan ei Swyddogion Awdurdodedig yn unol â'r gofynion

a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a hefyd yn benodol â Phennod 6 o'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). Mae Atodiad 1 o'r polisi hwn yn amlinellu'n benodol y meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi diogelwch bwyd sydd ar gael i swyddogion awdurdodedig.

5.15.2 Er mwyn sicrhau bod yr uchod yn cael ei gyflawni, gan ystyried egwyddorion y polisi gorfodi hwn, bydd gweithdrefnau dogfennol penodol ar gael ar gyfer defnyddio pob un o'r opsiynau gorfodi a nodir sydd ar gael i Swyddogion Awdurdodedig. Bydd y rhain hefyd yn cwmpasu lle mae'n angenrheidiol ac yn briodol cynnal ailymweliadau at ddibenion penderfynu ar gydymffurfiaeth lle nodwyd materion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

## 6. CYSWLLT AG ASIANTAETHAU ERAILL

6.1 Yn ogystal â'r dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf RES, byddwn, lle bo hynny'n briodol, yn cydweithredu ac yn cydlynu ag unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol a/neu asiantaeth gorfodi i sicrhau bod unrhyw gamau gorfodi mor effeithiol â phosibl.

6.2 Lle mae mater gorfodi yn effeithio ar ardal ddaearyddol eang neu'n cynnwys gorfodi gan un neu fwy o awdurdodau lleol neu sefydliadau eraill, bydd yr holl awdurdodau a sefydliadau perthnasol yn cael eu hysbysu o'r mater cyn gynted â phosibl a'r gweithgarwch gorfodi'n cael ei gydlynu gyda nhw fel y bo'n briodol.

6.3 Byddwn yn rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion rheoleiddio unigol ac ehangach gyda chyrff rheoleiddio ac asiantaethau gorfodi eraill, lle mae'r wybodaeth dan sylw'n effeithio'n uniongyrchol ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau gorfodi, ac yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data.

## 7. HYSBYSU POBL A BUSNESAU

7.1 Rydym yn ymdrechu i roi gwybod i droseddwyr honedig a thystion am gynnydd ymchwiliadau, fel y bo'n briodol. Derbynnir efallai na fydd hyn yn bosibl ym mhob achos, er enghraifft os byddai'n rhwystro ymchwiliad neu'n peri risg diogelwch i swyddogion ymchwilio, tystion neu'r cyhoedd yn gyffredinol.

## 8. ADOLYGU A CHYHOEDDI'R POLISI GORFODI

8.1 Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob pum mlynedd, neu pryd bynnag y cyflwynir newidiadau deddfwriaethol i'r ffordd yr ydym yn gorfodi.

8.2 Mae'r Polisi hwn ar gael mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys

a. Ar wefan y Cyngor yn www.blaenau-gwent.gov.uk

b. Drwy ein e-bostio yn environmental.health@blaenau-gwent.gov.uk

Gall y Polisi hwn gael ei roi ar gael ar dâp, mewn Braille neu mewn teip mawr ar gais. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

8.3 Croesewir sylwadau ar y Polisi Gorfodi hwn, a gellir eu gwneud drwy anfon e-bost atom yn environmental.health@blaenau-gwent.gov.uk

## Atodiad 1 – Meini Prawf Gorfodi Diogelwch Bwyd

Nod: sicrhau bod camau gorfodi diogelwch bwyd yn briodol ac yn unol â'r Polisi Diogelu'r Cyhoedd a Gorfodi Amgylcheddol a'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae camau gorfodi yn seiliedig ar gysondeb, tegwch, cymesuredd, tryloywder a gwrthrychedd. Wrth benderfynu ar y math o gamau gorfodi i'w cymryd, dylai swyddog awdurdodedig ystyried natur y toriad a hanes cydymffurfiaeth y gweithredwr busnes bwyd neu asesiad o barodrwydd y gweithredwr busnes bwyd i ymgymryd â'r gwaith a nodir gan y swyddog.

Yn y cyd-destun diogelwch bwyd arferol, gall camau gorfodi yn erbyn Gweithredwr Busnes Bwyd (FBO) symud o anffurfiol i ffurfiol ac mae'r tabl isod yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael. (Gweler hefyd y nodiadau ar ddiwedd y tabl.)

| Anffurfiol | Angen Hysbysiad/FPN | Cau Gwirfoddol | Atafaelu a Chadw | Gwaharddiad[6] | Erlyniad[6]/ Rhybudd Syml |
|---|---|---|---|---|---|
| • Tramgwyddau sy’n gyflym i'w hunioni e.e. Glanhau (gweithgareddau dros dro)<br>• Tramgwyddau risg isel i iechyd y cyhoedd<br>• Mae FBO yn cytuno i wneud gwaith o fewn amserlen briodol (lle nad yw'r safle’n cydymffurfio'n fras, rhaid cadarnhau'r gwaith sy'n ofynnol drwy lythyr)<br>• Record dda o ymateb i geisiadau anffurfiol<br>• Cynnydd da gyda gwelliannau sy’n cael eu cyflawni o fewn amserlen y cytunwyd arni<br>• Safon dda o waith, gwelliant parhaol i fusnes. | **HEPN[1], EPN[2], HIN[3], IN[4], RAN[5], Hysbysiadau Cadw ac Atafaelu**<br>• Record wael yr FBO (gan gynnwys diffyg cydymffurfiaeth â cheisiadau anffurfiol blaenorol)<br>• Tramgwyddau risg uchel i iechyd y cyhoedd<br>• FBO yn gwrthod cytuno ar waith<br>• Cytunwyd ar waith ond dim ymgais i'w weithredu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni<br>• Mae'r gwaith wedi'i gytuno ond mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n araf neu'n stopio neu'n methu â bodloni’r amserlen drafodwyd<br>• Busnes yn cael ei redeg i safon wael ac yn annhebygol o hunan-wella.<br>• Nid yw bwyd wedi'i gynhyrchu, ei brosesu neu ei ddosbarthu yn unol â'r 'Rheoliadau Hylendid'<br>• Bwyd anniogel ar y farchnad.<br>• Cytundeb Awdurdod Sylfaenol/Dim gwrthdaro â Chyngor Awdurdod Sylfaenol<br><br>**Hysbysiad Cosb Benodedig (FPN)**<br>Methu ag arddangos neu gydymffurfio â gofynion deunydd cyhoeddusrwydd | Mae amod risg iechyd yn bodoli:<br>• Risg ar fin digwydd<br>• Hyderus y bydd yr FBO yn aros ar gau nes y cytunir ar ailagor<br><br>➢ Yna gall gytuno i gau’n wirfoddol/ Gohirio gweithredu di-oed (ond nid oes rhaid) | Bwyd anniogel yn cael ei roi ar y farchnad nad yw'n bodloni gofynion diogelwch bwyd<br><br>Rhybuddion bwyd yn cael eu cyhoeddi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gofyn am weithredu<br><br>Ystyrir **gweithdrefnau gwirfoddol** lle:<br>• Mae’r perchennog mewn cytundeb gan gynnwys costau<br>• Bydd bwyd yn cael ei ddinistrio ac nid oes unrhyw risg y bydd y bwyd yn cael ei adfer ac yn ailymuno â’r gadwyn fwyd. | Mae amod risg iechyd yn bodoli:<br>• Hysbysiad (a Gorchymyn) Gwahardd Argyfwng Hylendid<br><br>Risg uniongyrchol o anaf i iechyd:<br>• Hysbysiad Gwaharddiad Brys | **Erlyniad**<br>• Troseddau difrifol sy'n peryglu'r cyhoedd neu unigolyn<br>• Bwriadol, di-hid, esgeulus neu barhaus<br>• Anwybyddwyd rhybuddion blaenorol<br>• Ymosod ar neu rwystro swyddog<br>• Methu â thalu FPN<br><br>**Rhybudd Syml -** (gan gyfeirio at Ganllaw’r Weinyddiaeth Gyfiawnder – gweler paragraff 5.11) lle mae'r FBO yn cyfaddef trosedd ac yn cytuno i rybudd |

**[1]HEPN – Hysbysiad Gwaharddiad Argyfwng Hylendid, [2]EPN – Hysbysiad Gwaharddiad Brys, [3]HIN – Hysbysiad Gwella Hylendid, [4]IN – Hysbysiad Gwella, [5]RAN – Hysbysiad Camau Adfer, [6]Gall y Llys ystyried Gorchymyn Gwahardd sy'n ymwneud â Gweithredwr Busnes Bwyd, ar gais yr Awdurdod Lleol, lle mae troseddau/euogfarnau ailadroddus.**

Nodiadau:

- Cam gweithredu i fod yn seiliedig ar risg, yn rhesymol ac yn gyson ag arfer da. Defnyddir dull graddedig ac addysgol.
- Cymerir camau ffurfiol pan nad yw'r anffurfiol yn cyflawni'r effaith a ddymunir
- Nid yw ymgymryd ag un math o gamau gorfodi yn atal cymryd un arall ar yr un pryd (e.e. gall Hysbysiadau ac Erlyniad fod yn angenrheidiol ar yr un pryd mewn amgylchiadau penodol)
- Efallai y bydd amgylchiadau eraill hefyd lle mae angen gwyro o'r tabl.